Mawrth 2010

Crynodeb gan Sgiliau er Cyfiawnder

Darparu Cyfiawnder mewn Byd sy'n Newid

Cyflwyniad

Mae trosedd yn ein niweidio ni i gyd. Yn ôl brasamcanion diweddar, mae troseddu'n debygol o gostio oddeutu £3,000 i bob cartref bob blwyddyn[1], ond mae'n amhosibl cyfrif y costau cymdeithasol ac emosiynol.

I'r unigolion hynny y mae eu bywydau wedi'u heffeithio'n uniongyrchol – a ydynt yn ddioddefwyr neu'n droseddwyr – ac i'w teuluoedd, mae'r effaith yn ddifrifol, ond mae'r effaith yn lledaenu i'r gymuned ehangach yn nhermau ofnau am ddiogelwch ac erydiad cyfalaf y gymdeithas. Ac wrth gwrs mae adferiad economaidd a thyfiant yn dibynnu ar gael amgylchedd diogel sy'n gallu denu a chadw busnesau.

Mae gan y sector Cyfiawnder y dasg o atal, canfod a chosbi troseddau fel bod unigolion a chymunedau'n fwy diogel, ac yn teimlo'n fwy diogel. Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn gwneud cyfraniad canolog i ddiogelwch y gymuned trwy ddelio â sefyllfaoedd argyfyngus ac mae ganddo rôl gynyddol mewn atal troseddu.

Mae gweithlu'r sector yn hanfodol i ddiogelwch y cyhoedd, cydlyniad cymdeithasol, adferiad economaidd a thyfiant, a'u sgiliau yw'r elfen bwysicaf y gall cyflogwyr fuddsoddi ynddi.

Bydd y sefyllfa economaidd gyfredol yn gwasgu cyllidebau ar draws y sector, tra bydd craffu cyhoeddus, yn gywir iawn, yn dal i bwyso am berfformiad lefel uchel. Sut all y gweithlu ddarparu rhagoriaeth yn y cyfnodau anodd?

Mae gwaith ymchwil diweddar gan Sgiliau er Cyfiawnder yn nodi'r problemau sy'n wynebu'r gweithlu mewn Cyfiawnder a Diogelwch Cymunedol. Mae'n adolygu cyflwr y gweithlu, yn canfod y prif ffactorau sy'n gyrru newid, ac yn defnyddio dull senarios i beintio darluniau heriol o sut y gallai'r dyfodol edrych, a sut y gallai cyflogwyr ymateb er mwyn sicrhau bod gan y sector y gweithlu medrus y mae ei angen.

Cyfansoddiad y Gweithlu

Mae ein gwaith ymchwil yn dangos

- Bod cyflogaeth yn y sector cyfiawnder wedi tyfu o fwy na thraean yn y 10 mlynedd diwethaf
- Bydd bron i drydedd rhan o'r gweithlu'n ymddeol neu'n gadael y sector dros y 10 mlynedd nesaf
- Bod y sector yn cyflogi cyfran llawer is o bobl ifainc na'r economi ehangach – oddeutu hanner
- Bod cyfran llawer uwch o bobl wedi'u cyflogi yn y grŵp technegol a phroffesiynol cysylltiedig nag yn yr economi ehangach – 53% yn lle 15%
- Bod sefydliadau sector preifat a thrydydd sector yn chwarae rhan gynyddol mewn darparu gwasanaethau.

Gyrwyr Anghenion Sgiliau'r Dyfodol

Bydd dyfodol y gweithlu wedi'i siapio gan rymoedd allanol pwerus

- Bydd newidiadau deddfwriaethol a pholisi'n parhau i yrru'r sector, gyda symudiad at fwy o ddatblygiadau arwyddocaol ac atebolrwydd lleol megis datganoli plismona a chyfiawnder i Gynulliad Gogledd Iwerddon
- Bydd amgylchiadau economaidd yn brathu wrth i effeithiau'r dirwasgiad roi pwysau ar y gyllideb a sbarduno cynnydd posibl ar yr un pryd mewn trosedd feddiangar
- Bydd tueddiadau cymdeithasol a demograffig yn cael effaith gynyddol wrth i wasanaethau ymdrechu i ddeall yr anghenion ac adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu
- Mae newidiadau technolegol ac amgylcheddol yn golygu bod yn rhaid i wasanaethau ganfod ffyrdd newydd o ymateb i faterion newydd – yn amrywio o lifogydd i droseddau seiber.

[1] Cyfnewidfa Bolisïau, Llai o Droseddu Llai o Gostau, Mai 2009

Sgiliau i Lwyddo

Aethom ati i edrych ar dair senario gyda'n cyflogwyr

(i) *cyfiawnder unedig* – y thema ddominyddol yw sector sy'n gweithio'n ddoethach i wella canlyniadau ac arbed arian
(ii) *cyfiawnder hanfodol* – mae'n rhaid cau ein llygaid ar lawer o uchelgeisiau er mwyn canolbwyntio ar weithio'n rhatach i gynnal gwasanaethau craidd er gwaethaf y toriadau yn y gyllideb
(iii) *cyfiawnder traddodiadol* – agenda cyfiawnder "nol i'r sylfaenol" anoddach wedi'i yrru gan bolisi'r Llywodraeth.

Wrth gwrs mae'r senarios yma'n croesi ei gilydd ac mae rhai materion yn ymwneud â'r gweithlu'n sefyll allan yn amlwg fel rhai hanfodol.

- Mae angen rheolaeth ac arweiniad effeithiol ar bob lefel, yn canolbwyntio ar reoli newid, asesu perfformiad ac ymateb i risgiau.
- Bydd angen mwy o ffocws ar sgiliau rheoli perfformiad a busnes er mwyn galluogi gwell comisiynu, caffaeliad ac atebolrwydd.
- Bydd sgiliau gweithio rhwng cyrff niferus yn parhau i fod yn ganolog mewn system gyfiawnder unedig sy'n canolbwyntio ar droseddwyr, dioddefwyr a thystion.
- Bydd angen i gyflogwyr sicrhau bod gan bobl y sgiliau cywir ar y lefel gywir i ddelio gyda sefyllfaoedd yn gyflym ac yn gywir, a chodi lefelau ymreolaeth i staff sy'n is ar y gadwyn gorchymyn.
- Bydd datblygu sgiliau ar y lefel broffesiynol gyswllt – lle ceir mwyafrif y gweithlu – yn parhau'n fater canolog i'r sector.
- Mae angen hybu mwy o wybodaeth arbenigol er mwyn gweithio'n effeithiol gyda grwpiau penodol o bobl – e.e. rheiny sydd â phroblemau iechyd meddwl.
- Bydd penodi a chynnal gweithlu amrywiol yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Byddwn yn parhau i weithio gyda chyflogwyr a Llywodraethau ledled y DU i'w helpu i ddeall y presennol a pharatoi ar gyfer y dyfodol.

Darllen Pellach

Mae adroddiadau diweddar yr ydym wedi'u cyhoeddi'n ehangu ar y materion yma'n fwy manwl. Mae'r adroddiadau'n cynnwys

- **Cyflogaeth a Sgiliau o fewn y Sector Cyfiawnder – anghenion y gweithlu, blaenoriaethau sgiliau, a senarios** (Sgiliau er Cyfiawnder, 2010) – cyfres o adroddiadau'n canolbwyntio ar y DU yn ogystal â Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- **Blaenoriaethau o ran Sgiliau a Senarios yn y Sector Cyfiawnder** (Sgiliau er Cyfiawnder, 2009) – adroddiad ymchwil a gomisiynwyd gan y Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth a gyfrannodd at y gwaith ymchwil ehangach sydd wedi'i ddisgrifio yn yr adroddiadau Cyflogaeth a Sgiliau uchod. Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion ffactorau sy'n gyrru newid, anghenion o ran sgiliau a senarios sy'n benodol berthnasol i ffrydiau'r sector Cyfiawnder.

Mae'r adroddiadau ar ein gwefan ar **www.skillsforjustice.com/template01.asp?pageid=721**

I gael copïau papur, cysylltwch â ni.

I gael rhagor o wybodaeth

Ewch i **www.skillsforjustice.com**
Ffoniwch **0114 261 1499**
Ebostiwch **info@skillsforjustice.com**

SGILIAU er CYFIAWNDER
Yn datblygu sgiliau ar gyfer cymunedau mwy diogel